GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG (SAINT-Y-BRID) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20 MYA A DIRYMU) 2021

1. Ar 25 Mawrth 2021, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adran 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Ebril 2021 neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag yw'r hwyraf a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Saint-y-brid) (Cyfyngiad Cyflymder 20 MYA a Dirymu) 2021. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
3. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 6 Ebril 2021 , wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

ATODLEN 1

Dirymu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (B4265 Ewenny Road (Rhan), Saint-y-brid) (Cyfyngiad Cyflymder 20mya Amrywiol) 2019.

ATODLEN 2

Ni chaniateir i unrhyw berson achosi neu alluogi cerbyd i deithio'n gyflymach na 20 milltir yr awr yn y lleoliad a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

B4265 Wick Road

O'r gyffordd â B4524 Southerndown Road, tua'r de, am oddeutu 852 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Lôn ddienw i Blackhall Road (drwy Fferm Court Newydd)

O'r gyffordd â B4265 Wick Road tua'r gogledd am oddeutu 100 metr.

B4265 Ewenny Road

O'r gyffordd â B4524 Southerndown Road tua'r gogledd am oddeutu 718 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr presennol.

Penylan Road

Ar ei hyd.

B4524 Southerndown Road

O'r gyffordd â B4265 Ewenny Road / Wick Road, tua'r dwyrain yn gyffredinol, am oddeutu 260 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder 40 milltir yr awr presennol

Heol-y-Slough

O'r gyffordd â B4265 Southerndown Road tua'r gogledd am oddeutu 85 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Lon-yr-Eglwys, Heol Sant Bridget, Lôn ddienw o B4265 Ewenny Road i Dŷ Bramerton Lôn gefn (Tafarn The Fox) o B4265 Ewenny Road i'r Gorlan

Ar ei hyd.

Blackhall Road

O'r gyffordd â B4265 Ewenny Road tua'r dwyrain yn gyffredinol am oddeutu 202 metr, wrth y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol presennol.

Meadow Court, Pant Close, Lôn ddienw o B4265 Ewenny Road i Heol-y-Milwyr

Ar ei hyd

Dyddiedig 1 Ebril 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA